Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Canllawiau statudol ar bŵlio asedau

Cyflwyniad

Mae'r wyth Awdurdod Gweinyddol CPLlL sy'n ffurfio Partneriaeth Pensiynau Cymru (PPC) yn falch o ddarparu'r ymateb hwn i ymgynghoriad y Llywodraeth ar ganllawiau diwygiedig ar bŵlio CPLlL. Mae'r Awdurdodau'n gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i'r Llywodraeth dderbyn un ymateb ar y cyd gan PPC ar y pwyntiau allweddol y mae wedi'u hadnabod o'r ymgynghoriad, sy'n tanlinellu dull partneriaeth effeithiol PPC ymhellach.

Rydym yn croesawu'r bwriad i osod rhestr gyfredol o ofynion ar sail statudol, i sefydlu terminoleg gyffredin ac egluro'r safbwyntiau ar gwestiynau a godir gan y cronfeydd a'r cronfeydd sydd wedi cyfuno mewn pŵl.

Strwythur a diffiniadau

Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod y canllawiau yn rhoi ystyriaeth i'r amrywiaeth o ddulliau gweithredu pŵl, gan ei bod yn ymddangos ar hyn o bryd bod y canllawiau wedi'u hysgrifennu'n helaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan fo 'cwmnïau pŵl' ym mherchnogaeth aelodau'r pŵl yn gyfan gwbl, yn hytrach na phan fo'r 'cwmni pŵl' yn drydydd parti a lwyddodd i sicrhau contract gan 'aelodau'r pŵl'. Mae paragraff 3.2 yn gywir pan fo'n dweud y gall aelodau'r pŵl benodi mwy nag un cwmni pŵl. Dylai'r canllaw gydnabod yn gliriach y gellir penodi sawl cwmni pŵl i ddarparu 'cerbydau/cyllid wedi eu pŵlio' i 'aelodau'r pŵl' a darparu'r swyddogaeth rheoli buddsoddiad o ran yr asedau hynny. Gallai hyn gynnwys buddsoddiadau goddefol drwy gronfeydd bywyd, neu isadeiledd a buddsoddiadau anhylif eraill. Nid yw hyn yn wahanol i'r ddarpariaeth o reolaeth buddsoddi mewnol gan 'gwmnïau pŵl' sydd mewn perchnogaeth cyfan gwbl.

Teimla PPC bod angen i MHCLG ailystyried ei ddiffiniad o bŵlio i sicrhau cysondeb ac osgoi unrhyw gamddealltwriaeth gormodol. Cred PPC fod MHCLG wedi cyfeirio'n gywir at ddiffiniad CIPFA o 'asedau wedi'u pŵlio' (mae adrannau allweddol wedi'u tanlinellu) '*those for which implementation of the investment strategy – i.e. the selection, appointment, dismissal and variation of terms for the investment managers (including internal managers) – has been contractually, transferred to a third party out with the individual pension fund's control'.* Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson â'r diffiniad yn y canllaw drafft *'an investment for which the selection, appointment, dismissal and variation of terms for the investment manager is delegated to a regulated pool company, or an investment held in a pool vehicle'*.

Fel enghraifft, mae MHCLG yn ymwybodol fod awdurdodau PPC wedi gosod contractau i BlackRock ar gyfer rheoli buddsoddiadau goddefol PPC, sydd wedi arbed o leiaf £2m y flwyddyn, ac mae'r Gweinidog wedi canmol PPC am hyn ar sawl achlysur. Felly, rydym wedi tybio y byddai'r Llywodraeth yn dymuno ymdrin â'r arbedion hyn fel arbediad pŵl. PPC fu'n gyfrifol am wobrwyo'r contractau hyn a bydd rheolaeth barhaus y contract a'r buddsoddiadau yn cael eu llywodraethu gan y pŵl, nid gan yr awdurdodau unigol, felly bydd hyn yn unol â diffiniad CIPFA, ac fel y cyfryw, bydd yn cael ei adrodd fel 'ased y pŵl', ac fe ddylid adlewyrchu hyn yn y canllaw.

Buddsoddiadau gweithredol a goddefol

Mae awdurdodau PPC yn falch bod y canllaw yn parhau i adlewyrchu mai awdurdodau gweinyddu unigol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am ddyraniad asedau strategol. Fel y cyfryw, bydd y penderfyniad i fuddsoddi mewn buddsoddiadau gweithredol neu oddefol yn cael ei wneud gan bob awdurdod gweinyddol, yn seiliedig ar eu hasesiad unigol am addasrwydd y buddsoddiadau a'r dull o ymdrin â risg [Rheoliad 7(2) (b + c)] yn eu Datganiad Strategaeth Buddsoddi. Mae effeithiolrwydd buddsoddiad gweithredol a goddefol eisoes yn cael ei fonitro'n agos gan bob awdurdod fel rhan o'r dull parhaus o reoli eu cronfa bensiwn.
Nid mater pŵlio yw'r penderfyniad p'un i fuddsoddi mewn buddsoddiadau gweithredol neu oddefol, ac felly, dylid dileu paragraff 3.6 o'r canllawiau.
Fodd bynnag, os yw'r adran hon am barhau yn y canllaw, mae'n bwysig fod unrhyw asesiad o berfformiad yn ystyried lefel y risg sy'n cael ei chymryd i wireddu'r perfformiad hwn.
Mae'r diffyg cyfeiriad at risg yn rhywbeth nodedig sydd ar goll yn y canllaw drafft.

Byrddau Pensiwn Lleol

Bu i bob awdurdod gweinyddu sefydlu bwrdd pensiwn lleol dan ddarpariaethau Adran 3 Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus, Cymru a Lloegr, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2015. Mae'n gyfrifol am **gynorthwyo'r awdurdod gweinyddu** ac mae'n ymgymryd â swyddogaeth o gymryd trosolwg, er mwyn

- sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau CPLlL ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun ac unrhyw gynllun cysylltiedig arall, ac unrhyw ofynion a orfodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun; a
- sicrhau llywodraethiad a gweinyddiad effeithiol ac effeithlon y Cynllun.

Felly, rydym yn teimlo y dylid dileu'r cyfeiriad at y Bwrdd o'r canllaw, gan nad yw'n ymwneud â phŵlio.

Gwerth am arian a dal asedau y tu allan i'r pŵl

Mae cronfeydd PPC yn siomedig nad yw'r maen prawf pŵlio gwreiddiol o 'werth am arian' yn parhau i ymddangos yn y canllaw. Mae'r canllaw yn nodi'n gywir fel a ganlyn: *'Members of Pension Committees are elected representatives with duties both to LGPS employers and members, and to local taxpayers… [and] have legal responsibilities for the prudent and effective stewardship of LGPS funds'*. Er hynny, mae'r canllaw'n nodi: *'LGPS benefits are not dependent on their [local pension committees'] stewardship';* yn hanfodol, mae cost y buddion hynny i aelodau'r cynllun yn ddibynnol, felly mae gwerth am arian trefniadau buddsoddi pob cronfa a phŵl yn parhau i fod yn bwysig ac yn rhan allweddol o ymgymryd â dyletswydd ymddiriedol y pwyllgorau pensiwn, ac felly dylai barhau fel maen prawf pŵlio sylfaenol.

Mae paragraff 4.4 y canllaw yn cyfeirio'n gywir at bwyllgorau pensiwn a phwyllgorau llywodraethu pŵl, gan gymryd golwg hirdymor ar gostau a buddion pŵlio. Fodd bynnag, wrth ymhelaethu a nodi y dylid ystyried '...*the benefits across the pool and across the scheme as a whole*', mae'n gosod disgwyliadau amhriodol a rhai na ellir gweithredu arnynt. Mae cyfrifoldeb ymddiriedol ar bwyllgorau pensiwn unigol tuag at aelodau eu cynllun eu hunain ac ni allant wneud penderfyniadau sy'n rhoi eu cronfa eu hunain dan anfantais, hyd yn oed pe byddai'n fuddiol i eraill. Nid oes mecanwaith i bŵliau feintioli buddion i'r cynllun yn ei gyfanrwydd, ac mae hon yn sail afresymol

i'w pŵl wneud penderfyniadau. Dylid dileu'r adran ym mharagraff 4.4 a ddyfynnir uchod oni bai y gall y Llywodraeth ddarparu barn gyfreithiol sy'n dangos bod yn rhaid i ddyletswydd ymddiriedol Awdurdodau Gweinyddu ymestyn i'w pŵl a'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

Ers y canllaw pŵlio gwreiddiol yn 2015, mae gwaith sylweddol PPC ar bŵlio wedi adnabod y gellir cyflawni arbedion net drwy bŵlio o ran ffioedd a chostau rheolwyr buddsoddi. Mae hyn wedi'i adrodd i'r Llywodraeth ac wedi cael derbyniad cadarnhaol. Yn ogystal, mae PPC wedi adrodd bod ganddo raglen waith i weithredu'r pŵlio a chyflawni'r arbedion hyn, ac mae hyn ar y gweill yn barod.

Er hynny, mae'r gwaith hyd yma hefyd wedi amlygu mewn nifer o achosion bod awdurdodau unigol eisoes wedi cyflawni ffioedd cystadleuol tu hwnt, ac mewn rhai achosion, ni ellir cyflawni dim neu fawr ddim arbediad pellach drwy bŵlio, ac mae hyn yn cael ei adnabod yn y canllaw ym mharagraff 5.4. Fodd bynnag, dylai'r canllaw gydnabod, er adolygu'n rheolaidd, efallai na fydd y buddion parhaus o bŵlio dros yr hirdymor yn gorbwyso'r costau a'r asedau ac efallai y bydd yn parhau y tu allan i'r pŵl am gyfnod amhenodol. Fel y cyfryw, dylid dileu'r gair *'temporary'* o'r pennawd ar gyfer paragraffau 5.4 a 5.5 ac fe ddylid diwygio'r diffiniad o *'retained asset'* i *'an existing investment allocation retained by a pool member'*. Rhaid cynnwys eglurhad pellach ar gadw asedau y tu allan i'r pŵl, yn enwedig o ran buddsoddiadau eiddo uniongyrchol. Yn wahanol i ddosbarthiadau asedau eraill, ni fydd eiddo uniongyrchol yn 'aeddfedu' (fel y'i disgrifir ym mharagraff 5.4), ac yn y pen draw fe ddaw ar gael i'w fuddsoddi mewn datrysiad dilynol wedi'i bŵlio. Yn ogystal, er mwyn gwneud y mwyaf o elw ar fuddsoddiadau ac er mwyn rheoli portffolio yn effeithlon, bydd buddsoddiadau newydd mewn eiddo uniongyrchol yn parhau i gael eu gwneud o fewn dyraniadau strategol presennol, tra y gwneir dyraniadau newydd o fewn y pŵl pan ddaw opsiynau addas ar gael.

Gwneud buddsoddiadau newydd y tu allan i'r pŵl

Rydym yn croesawu 6.2 (*investments in local initiatives*). Mae PPC yn ystyried bod rhain yn gyfleoedd buddsoddi posib pwysig sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

Adrodd

Fel y nodwyd yn yr ymateb hwn yn gynharach, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod y canllaw hwn yn adlewyrchu'r ddau fodel pŵlio, lle mae'r 'cwmni pŵl' yn ddarparwr trydydd parti neu ym mherchnogaeth cyfan gwbl aelodau'r pŵl. Fel y cyfryw, dylid naill ai ddileu paragraff 8.8 neu egluro mai dim ond i gwmnïau pŵl sydd mewn perchnogaeth cyfan gwbl y mae hyn yn berthnasol. Ni fydd cwmnïau pŵl trydydd parti yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol sy'n berthnasol i bŵlio buddsoddiadau CPLIL.

Mae'r paragraffau blaenorol yn adran 8 wedi'u geirio'n gywir. Mae contract PPC â'r gweithredwr yn sicrhau ei fod yn adrodd i aelodau'r pŵl yn unol â'r *SAB Code of Cost Transparency* (paragraff 8.7), a hwn fydd y sail i adroddiadau blynyddol yr awdurdodau gweinyddu a gynhyrchir yn unol â chanllaw CIPFA, y gellir ei goladu gan y SAB (paragraff 8.6).

Buddsoddi cyfrifol

Mae'r ymgynghoriad yn brin ar eiriau yn yr adran hon. O ystyried pwysigrwydd y pwnc hwn, credwn fod sgôp i ychwanegu mwy o eiriau ar y pwnc hwn, ac ar oblygiadau posib pŵlio, yn y canllaw.